OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 1241 (Cy. 129) (C. 50)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Darfodol) (Cymru) 2014

*Gwnaed - - - - 13 Mai 2014*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 185(3) ac (8) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Darfodol) (Cymru) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

### Cychwyn a chymhwyso

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf 2014 i rym o ran Cymru ar 13 Mai 2014—

(a) adran 98 (ymddygiad sy'n peri niwsans i landlord etc.);

(b) adran 100(1) (cyfyngiadau pan fo achos newydd ynghylch meddiant ar ei hanner etc.);

(c) adran 181(1) (diwygiadau), i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 11 a bennir ym mharagraff (d) isod;

(d) yn Atodlen 11 (diwygiadau mân a chanlyniadol)—

(i) paragraff 12;

(ii) paragraff 20.

### Darpariaethau darfodol: adfer meddiant tai annedd

**3.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gwneud addasiadau darfodol i Ddeddf Tai 1985(**2**) a 1988(**3**) fel y maent yn gymwys yng Nghymru, i fod yn effeithiol o 13 Mai 2014 ymlaen.

(**1**) 2014 p.12.
(**2**) 1985 p.68.
(**3**) 1988 p.50.

(2) Hyd nes i adrannau 94 i 97 o Ddeddf 2014 (seiliau absoliwt dros feddiant) ddod i rym yng Nghymru, mae Deddf Tai 1985 i'w darllen—

(a) yn adran 138 (dyletswydd landlord i drawsgludo rhydd-ddaliad neu i roi prydles)(**4**)—

(i) yn is-adran (2A)(a) fel pe bai'r geiriau "or section 84A possession order" wedi eu hepgor;

(ii) yn is-adran (2B)(a) fel pe bai'r geiriau "or an operative section 84A possession order" wedi eu hepgor; a

(iii) yn is-adran (2C) fel pe bai'r diffiniadau o "operative section 84A possession order" a "section 84A possession order" wedi eu hepgor;

(b) yn Atodlen 1 (tenantiaethau nad ydynt yn denantiaethau diogel)(**5**), ym mharagraff 4ZA(12) (tenantiaethau ymyriad teuluol) fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle'r diffiniad o "relevant possession order"—

""relevant possession order" means a possession order under section 84 that is made on ground 2, 2ZA or 2A of Part 1 of Schedule 2;".

(3) Hyd nes i adrannau 94 i 97 o Ddeddf 2014 (seiliau absoliwt dros feddiant) ddod i rym yng Nghymru, yn Atodlen 1 i Ddeddf Tai Act 1988 (tenantiaethau na allant fod yn denantiaethau sicr)(**6**), mae paragraff 12ZA(3)(a)(i) (tenantiaethau ymyriad teuluol) i'w ddarllen fel pe bai'r geiriau "ground 7A of Part 1 of Schedule 2 or" wedi eu hepgor.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

13 Mai 2014

(**4**) Mewnosodwyd is-adrannau (2A) i (2C) gan adran 193(1) o Ddeddf Tai 2004 (p. 34) ac fe'u diwygir yn y dyfodol gan adran 100(1) o Ddeddf 2014.

(**5**) Mewnosodwyd paragraff 4ZA gan adran 297(1) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (p. 17) ac fe'i diwygir yn y dyfodol gan adran 181 o Ddeddf 2014, a pharagraff 12 o Atodlen 11 iddi.

(**6**) Mewnosodwyd paragraff 12ZA gan adran 297(2) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ac fe'i diwygir yn y dyfodol gan adran 181 o Ddeddf 2014, a pharagraff 20 o Atodlen 11 iddi.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod ag amryw o ddarpariaethau Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("Deddf 2014") i rym, yng Nghymru.

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym, o ran Cymru, ddarpariaethau sy'n ymwneud â seiliau dewisol dros orchymyn meddiant ar denantiaethau diogel a sicr (adran 98).

Mae adran 99 o Ddeddf 2014 yn dod i rym ar 13 Mai 2014 (O.S. 2014/949) yng Nghymru a Lloegr, er bod yr adran honno'n gymwys o ran tai annedd yn Lloegr yn unig. Am y rheswm hwnnw, mae erthygl 2 hefyd yn dwyn i rym yng Nghymru y darpariaethau atodol sy'n ymwneud ag adfer meddiant ar dai annedd ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol (adran 100(1)).

Mae erthygl 3 yn gwneud addasiadau darfodol i adran 138 o Ddeddf Tai 1985 ac Atodlen 1 iddi, ac i Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1988 nes i adrannau 94 i 97 o Ddeddf 2014 (seiliau absoliwt dros feddiant) ddod i rym.

Mae nodyn ynghylch Gorchmynion Cychwyn blaenorol ar gael drwy wneud cais i'r Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.